Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

# Adroddiad a Chyfrifon

2023-24






**Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol**

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24**

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag adran 40(5) o Ddeddf Osteopathiaid 1993

© Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol 2024

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a nodi teitl y ddogfen.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn y General Osteopathic Council, Osteopathy House, 176 Tower Bridge Road, Llundain SE1 3LU.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan: **osteopathy.org.uk/annualreport**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Gwybodaeth am y Cyngor Osteopathig Cyffredinol | 5 |
| 2. Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor | 6 |
| 3. Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd | 7 |
| 4. Ein nodau strategol | 8 |
| 5. Ein prosesau llywodraethu, rheoli a risgiau | 9 |
| 6. Ein perfformiad yn erbyn ein nodau strategol yn 2023-24 | 13 |
| 7. Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf | 23 |
| 8. Adroddiad ariannol a chyfrifon 2023-24 | 26 |

# 1 Gwybodaeth am y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Sefydlwyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 ac mae ganddo ddyletswydd statudol i reoleiddio a datblygu'r proffesiwn osteopatheg yn y DU i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

| | |
|---|---|
| Mae ein rôl yn cynnwys ceisio cyflawni'r amcanion canlynol: | • diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd<br>• hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi<br>• hybu a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiwn |
| Ein swyddogaethau craidd yw: | • sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant osteopathig<br>• cofrestru gweithwyr proffesiynol cymwysedig bob blwyddyn a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i ymarfer<br>• gosod a hyrwyddo safonau uchel o ymarfer ac ymddygiad ym maes osteopathi<br>• helpu cleifion sydd â phryderon am osteopathiaid a, lle bo angen, ymdrin â'r pryderon hyn trwy weithdrefnau addasrwydd i ymarfer |

Amcanion statudol y GOsC yw ei amcanion elusennol hefyd. Trwy gyflawni ein hamcanion statudol fel yr amlinellir trwy'r gweithgareddau yn yr adroddiad hwn, gall yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn aelodau o'r Cyngor) gadarnhau eu bod wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn elusen sydd wedi'i chofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, ac mae wedi cofrestru ers mis Ebrill 2017 (rhif cofrestru 1172749).

Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn wedi'u gosod gerbron dau Dŷ Senedd y DU a'u cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau.

# 2 Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Fel y Cadeirydd newydd, rwy'n edrych ymlaen yn fawr at arwain y gwaith o reoleiddio'r proffesiwn a diogelu cleifion osteopathig a'r cyhoedd.



Fel rhywun sydd wedi elwa'n sylweddol o osteopathi, roeddwn wrth fy modd yn cael fy mhenodi'n Gadeirydd newydd y GOsC. Mae'n bleser gallu etifeddu sefydliad sydd wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall. Unwaith eto, mae'r GOsC wedi bodloni holl Safonau Rheoleiddio Da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu'r gwaith a gafodd ei wneud rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 cyn i mi ddechrau yn y swydd. Mae ehangder a dyfnder y gweithgarwch sydd yn yr adroddiad yn dangos bod y GOsC yn parhau i gynorthwyo'r proffesiwn i ddarparu gofal cleifion o ansawdd uchel. Rwy'n awyddus i sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu â'r proffesiwn, gan wrando ar farn osteopathiaid, cleifion a'n sefydliadau partner allweddol er mwyn llywio ein gwaith. Rwy'n edrych ymlaen yn benodol at ddarllen am ganlyniadau ein gwaith ymchwil yn ymwneud â chanfyddiadau ein rhanddeiliaid a'r rhai sydd wedi cofrestru gyda ni, a ddechreuodd yn 2023-24 ac a fydd yn parhau yn y flwyddyn fusnes nesaf.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n Cadeirydd, Dr Bill Gunnyeon, wrth iddo adael am ei waith ardderchog gyda'r GOsC dros y pedair blynedd diwethaf, ac yn enwedig trwy gyfnod y pandemig COVID. Hefyd, hoffwn ddiolch i aelodau'r Cyngor sy'n gadael, Sarah Botterill, yr Athro Deborah Bowman, Dr Denis Shaughnessy a Deborah Smith, am eu holl waith. Rwy'n dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'n haelodau newydd o'r Cyngor dros y flwyddyn i ddod.



**Jo Clift**
Cadeirydd y Cyngor
18 Gorffennaf 2024

# 3 Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Rwy'n edrych yn ôl ar flwyddyn fusnes 2023-24 fel un o ddathlu a newid.



Cafwyd achos i ddathlu gydag osteopathiaid o'r DU a thramor; gyda chydweithwyr ddoe a heddiw a chyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghonfensiwn 2023, gan nodi 30 mlynedd o gydnabyddiaeth ers cyflwyno Deddf Osteopathiaid 1993.

Roedd y cyfle i ryngweithio â chynifer o gydweithwyr ym maes osteopathi yn brofiad gwych. Cafwyd cyfle i groesawu cynrychiolwyr yn ystod lansiad y digwyddiad; cyfle i gyflwyno gyda Dr John Gimpel o Unol Daleithiau America ar bwnc rheoleiddio osteopathig, a chyfle i weld hen ffrindiau yn aduno o dan faner osteopathi, megis cyn-Brif Weithredwr y GOsC a'r Cofrestryddion Madeleine Craggs a Tim Walker, a chyn-Gadeiryddion y GOsC, Simon Fielding a Nigel Clarke.

Mae'r GOsC wedi newid yn sylweddol yn sgil nifer fawr o ymgyrchoedd recriwtio ar draws amrywiaeth o swyddi llywodraethu. Rwyf wrth fy modd ein bod wedi llwyddo i ddenu'r casgliad mwyaf amrywiol o ymgeiswyr erioed, sy'n dangos canfyddiadau pobl o'r proffesiwn a'r rheoleiddiwr, ac yn brawf o'n hymrwymiad i gynhwysiant.

Rwy'n falch o groesawu Jo Clift i'w rôl newydd fel Cadeirydd y Cyngor, a hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd sy'n gadael, Dr Bill Gunnyeon, am ei waith ar y Cyngor ac fel Cadeirydd.

Ac yn olaf, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith eleni, yn enwedig fy nhîm staff. Mae eu hymdrechion yn cael eu hadlewyrchu yn y flwyddyn lwyddiannus rydym yn adrodd arni yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn.



**Matthew Redford**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
18 Gorffennaf 2024

# 4 Ein nodau strategol

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu gwaith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024.

Yn 2019, cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Strategol pum mlynedd a oedd yn nodi'r hyn yr oedd y sefydliad am ei gyflawni yn y cyfnod 2019-2024. Gweler: **osteopathy.org.uk/strategic-plan**

Yn y cynllun hwn, fe wnaethom ddisgrifio ein gweledigaeth fel rheoleiddiwr:

> Partneriaeth mewn safonau proffesiynol sy'n cyflawni ein dyletswydd statudol i ddiogelu'r cyhoedd a hyrwyddo diogelwch a lles cleifion trwy reoleiddio modern sy'n cefnogi ac yn datblygu osteopathiaid.

Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar bedwar amcan strategol lefel uchel sy'n pennu cyfeiriad y cylch cynllunio pum mlynedd o 2019 i 2024:

### Nod strategol un:

Byddwn yn cefnogi'r proffesiwn osteopathig i ddarparu gofal o ansawdd uchel, a fydd yn diogelu cleifion a'r cyhoedd yng nghyd-destun newidiadau yn nhirwedd ddynamig gofal iechyd.

### Nod strategol dau:

Byddwn yn datblygu ein prosesau sicrhau ansawdd addysg osteopathig er mwyn meithrin graddedigion o ansawdd uchel sy'n barod i ymarfer.

### Nod strategol tri:

Byddwn yn datblygu perthynas agosach â'r cyhoedd a'r proffesiwn sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a thryloywder.

### Nod strategol pedwar:

Byddwn yn enghraifft i eraill ym maes rheoleiddio gofal iechyd modern – hygyrch, effeithiol, arloesol, ystwyth, cymesur a myfyriol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed ym mlwyddyn olaf Cynllun Strategol 2019-24. Gallwch ddarllen mwy am ein Strategaeth ar gyfer y dyfodol, hyd at 2030, yn Adran 7 – Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf.

# 5 Ein prosesau llywodraethu, rheoli a risgiau

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) yn cynnwys Cyngor, pwyllgorau a thîm gweithredol bach. Nododd y GOsC brif risgiau mewn sawl maes yn 2023-24 ynghyd â chamau lliniaru allweddol.

## Y Cyngor

Mae Cyngor y GOsC yn cynnwys 10 aelod - pum aelod lleyg a phum aelod cofrestredig. Mae gwaith llywodraethu'r Cyngor yn cael ei gefnogi gan bron i 40 o aelodau lleyg a chofrestredig o'n pwyllgorau statudol ac anstatudol, yn ogystal ag aseswyr cofrestru, aseswyr cyfreithiol, cynghorwyr meddygol ac eraill. Mae aelodau'r Cyngor yn ymddiriedolwyr elusen hefyd, sy'n gyfrifol am sicrhau bod y GOsC yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 a deddfwriaeth arall.

Mae bywgraffiadau byr o aelodau presennol y Cyngor ar gael ar wefan y GOsC yma:**osteopathy.org.uk/council**

## Pwyllgorau'r Cyngor

Mae sawl pwyllgor statudol ac anstatudol yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion. Mae gan y Cyngor dri phwyllgor: y Pwyllgor Polisi ac Addysg; y Pwyllgor Archwilio; a'r Pwyllgor Pobl.

Mae pob pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r Cyngor ac aelodau allanol sydd wedi'u penodi. Mae'r Cyngor yn penodi aelodau allanol o dan arweiniad y Pwyllgor Pobl.

Mae gwybodaeth am ein pwyllgorau, gan gynnwys aelodau pob un, ar gael ar ein gwefan: **osteopathy.org.uk/committees**

### Presenoldeb aelodau'r Cyngor yng nghyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau

Mae aelodau unigol yn mynychu gweithgorau, diwrnodau hyfforddi a datblygu, cyfarfodydd ad hoc ac arfarniadau drwy gydol y flwyddyn hefyd.

| Enw | Y Cyngor | Pwyllgor Polisi ac Addysg | Archwilio | Pobl |
|---|---|---|---|---|
| Bill Gunnyeon | 6/6 | | | |
| Daniel Bailey | 5/6 | 4/4 | | |
| Sarah Botterill | 5/6 | 2/4 | | 2/3 |
| Deborah Bowman | 5/6 | 4/4 | | |
| Elizabeth Elander | 6/6 | | | 3/3 |
| Caroline Guy | 5/6 | | 3/3 | 3/3 |
| Simeon London | 5/6 | 3/4 | | 3/3 |
| Patricia McClure | 6/6 | 3/4 | | |
| Denis Shaughnessy | 5/6 | | 3/3 | 3/3 |
| Deborah Smith | 6/6 | | 3/3 | |

## Pwyllgorau addasrwydd i ymarfer annibynnol

Mae tri phwyllgor yn cefnogi swyddogaethau addasrwydd i ymarfer y Cyngor:

- y Pwyllgor Ymchwilio
- y Pwyllgor Iechyd
- y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Mae'r GOsC yn gyfrifol ac yn atebol am weithrediadau'r pwyllgorau hyn, ond mae eu penderfyniadau yn annibynnol ar Gyngor y GOsC.

Mae'r pwyllgorau'n gweithredu fel paneli, ac fel arfer mae ganddynt dri neu bum aelod sy'n ystyried pryderon ac achosion sydd wedi'u hatgyfeirio.

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau'r pwyllgorau gan ddilyn proses recriwtio cyhoeddus o dan arweiniad y Pwyllgor Pobl.

Mae gwybodaeth am y Pwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer annibynnol, gan gynnwys aelodau pob un, ar gael ar ein gwefan. Gweler gwybodaeth am holl bwyllgorau'r GOsC:
**osteopathy.org.uk/committees**

## Tîm Gweithredol y GOsC

Caiff gweithrediadau'r GOsC eu rheoli o ddydd i ddydd gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, yr Uwch Dîm Rheoli a staff eraill.

Mae Uwch Dîm Rheoli'r GOsC yn cynnwys:

- Matthew Redford, Prif Weithredwr a Chofrestrydd
- Fiona Browne, Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Datblygu
- Sheleen McCormack, Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer a Chwnsler Cyffredinol

## Cynghorwyr y GOsC

**Archwilwyr**
Haysmacintyre LLP
10 Queen Street Place
Llundain EC4R 1AG

**Bancwyr**
Royal Bank of Scotland
62-63 Threadneedle Street
Llundain EC2R 8LA

## Our risks

Roedd y prif risgiau a nodwyd gan y GOsC yn 2023-24 (ynghyd â chamau lliniaru allweddol) yn perthyn i'r meysydd canlynol:

| Maes risg | Camau lliniaru |
|---|---|
| Dyheadau strategol yn cael eu tanseilio gan bwysau ar gynaliadwyedd | Monitro incwm a gwariant yn agos gan alluogi'r Cyngor i ystyried blaenoriaethau strategol. |
| Seilwaith TG yn methu â chefnogi gweithgarwch y GOsC a/neu raglen drawsnewid yn y dyfodol | Archwiliadau TG annibynnol i asesu'r dull o ymdrin â diogelwch TG. Bwriad i uwchraddio cronfa ddata'r rhai sydd wedi'u cofrestru gyda'r GOsC a gwella cysondeb â'r wefan. |
| Nifer a chymhlethdod achosion addasrwydd i ymarfer | Dulliau adolygu sicrwydd ansawdd cynhwysfawr a chyson ochr yn ochr â rhaglen barhaus o hyfforddiant ar gyfer aelodau paneli. |

**Dyheadau strategol yn cael eu tanseilio gan bwysau ar gynaliadwyedd:**

Fel sefydliad ag un brif ffynhonnell incwm, rydym yn cydnabod y byddai ein dyheadau strategol fel rheoleiddiwr yn cael eu tanseilio pe bai ein hadnoddau'n annigonol. Rydym yn sicrhau ein bod yn gwybod am gyfansoddiad y Gofrestr er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod am unrhyw newid sylweddol a beth y gallai hyn ei olygu i'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Rydym yn sicrhau bod gennym ddull strwythuredig sy'n canolbwyntio ar risg o reoli ein cronfeydd wrth gefn a'n portffolio buddsoddi.

Ein camau lliniaru ar gyfer y flwyddyn i ddod yw sicrhau bod gennym strategaeth ariannol ac asedau ar waith i gefnogi ac ategu'r Strategaeth newydd, hyd at 2030.

**Seilwaith TG yn methu â chefnogi gweithgarwch y GOsC a/neu raglen drawsnewid yn y dyfodol:**

Mae risg yn bodoli mewn perthynas â'n seilwaith TG os nad yw'n darparu'r diogelwch sydd ei angen arnom neu os yw systemau etifeddol yn ein hatal rhag gwneud ein gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol. Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, rydym wrthi'n cyflwyno cronfa ddata gofrestru newydd a fydd yn gwella ein heffeithlonrwydd a'n gwaith, ac mae'r prosiect yn cael ei gefnogi gan ymgynghorydd TG arbenigol. Hefyd, rydym yn gwella ein diogelwch TG, a byddwn yn cynnal profion treiddiad o'n systemau yn y flwyddyn i ddod.

**Nifer a chymhlethdod achosion addasrwydd i ymarfer:**

Mae gan bob rheoleiddiwr gofal iechyd risgiau sy'n gysylltiedig â nifer a chymhlethdod achosion addasrwydd i ymarfer a'r posibilrwydd y bydd pobl yn apelio yn erbyn penderfyniadau. Mae yna risgiau sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd a phrydlondeb cwblhau achosion, sy'n gysylltiedig ag un o'n targedau allweddol sy'n cael ei fonitro gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae oedi wrth dderbyn adroddiadau trydydd parti yn effeithio ar ein llwyth achosion, gan gynnwys adroddiadau gan yr heddlu neu ysbytai.

Er ei fod yn destun balchder i ni fod ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer yn cael eu rheoli mewn modd cost-effeithiol, amserol a chymesur, mae ein deddfwriaeth hynafol yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i ni feddwl yn ochrol a bod yn arloesol wrth gyflwyno diwygiadau addasrwydd i ymarfer y mae modd eu cyflwyno heb droi at newidiadau deddfwriaethol.

# 6 Ein perfformiad yn erbyn ein nodau strategol yn 2023-24

**Nod strategol un:** Byddwn yn cefnogi'r proffesiwn osteopathig i ddarparu gofal o ansawdd uchel, a fydd yn diogelu cleifion a'r cyhoedd yng nghyd-destun newidiadau yn nhirwedd ddynamig gofal iechyd.

## Adnoddau i gefnogi cleifion mewn ymgynghoriadau: gwerthusiad

Yn 2022, aethom ati i gynhyrchu adnoddau er mwyn helpu cleifion i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Yn 2023, gwnaethom benodi'r Athro Dawn Carnes, Dr Julie Ellwood a Dr Kevin Brownhill o Goleg Prifysgol Osteopathi i werthuso defnyddioldeb yr adnoddau.

Yn ôl y canfyddiadau, er y gellid gwella ymwybyddiaeth gyffredinol o'r adnoddau a bod angen cymell osteopathiaid i'w defnyddio wrth ymarfer, mae'r adnoddau'n hyrwyddo dulliau sy'n canolbwyntio ar y claf, ac mae cleifion o'r farn eu bod yn addysgiadol, yn ddefnyddiol ac yn teimlo bod eu 'llais' yn cael ei glywed. Mae hwn yn ganfyddiad pwysig iawn gan nad yw cleifion yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed bob amser ym maes gofal iechyd, ac os nad ydyn nhw'n gallu esbonio'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, ni allant gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar y cyd am eu gofal.

Roedd argymhellion yr adroddiad yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer osteopathiaid wrth wneud penderfyniadau ar y cyd, creu gwe-dudalen **Visiting an osteopath** er mwyn i gleifion gael mynediad at adnoddau yn ganolog, a sicrhau bod modd cwblhau a chadw'r adnoddau ar ffurf electronig.

## Y ddyletswydd gonestrwydd

Buom yn gweithio gyda'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ac Ymchwil Gymunedol i lywio dealltwriaeth o sut y dylai'r ddyletswydd gonestrwydd weithio ym maes ymarfer osteopathig a cheiropractig. Roedd ein gweithdy'n cynnwys amrywiaeth eang o gleifion ac roedd yn archwilio eu disgwyliadau.

Bydd yr adroddiad yn llywio'r gwaith o ddatblygu adnoddau er mwyn cefnogi deialog agored a gonest rhwng osteopathiaid a chleifion pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u triniaeth neu eu gofal sy'n achosi, neu a allai achosi, niwed neu ofid.

## Prosiect ffiniau

Mae nifer y pryderon yn ymwneud â ffiniau yn parhau'n uchel. Buom yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewn trafodaeth bord gron i ystyried sut y gallem gael mwy o effaith. Cyflwynodd Julie Stone, moesegydd meddygol, ganfyddiadau ei gwaith ymchwil er mwyn helpu i wella dealltwriaeth o effaith croesi ffiniau ar gleifion ac osteopathiaid, ac fe wnaethom hwyluso trafodaeth gyda rhanddeiliaid i archwilio galluogwyr a rhwystrau i weithredu. Bydd y trafodaethau'n llywio rhagor o waith y flwyddyn nesaf.

## Cynllun datblygiad proffesiynol parhaus

Fe wnaethom barhau â'n gwerthusiad parhaus o'r cynllun datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) trwy gyhoeddi arolwg er mwyn archwilio effaith y cynllun ar ymarfer. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi'r flwyddyn nesaf a byddant yn llywio gwaith i ddatblygu'r cynllun DPP.

**Nod strategol dau:** Byddwn yn datblygu ein prosesau sicrhau ansawdd addysg osteopathig er mwyn meithrin graddedigion o ansawdd uchel sy'n barod i ymarfer

## Gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

Yn ystod y flwyddyn hon buom yn datblygu ein syniadau am sut y gallem ddiweddaru a gwella'r canllawiau ar reoli iechyd ac anabledd ar gyfer myfyrwyr a darparwyr addysg osteopathig.

Mae addasrwydd i ymarfer myfyrwyr yn faes allweddol arall sy'n sail i'r broses o osod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant. Cyhoeddwyd canllawiau drafft newydd am ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd myfyrwyr i ymarfer ym maes addysg osteopathig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## Sicrhau ansawdd addysg osteopathig

Fel rhan o waith i gyflwyno Canlyniadau wedi'u diweddaru a Safonau newydd, fe wnaethom adolygu adroddiadau blynyddol ar gyfer saith darparwr addysg gan ddarparu adborth lle bo angen. Y nod oedd eu cefnogi i barhau i fodloni a gwella eu darpariaeth o addysg osteopathig. Fel rhan o'r gwaith hwn, ystyriodd y Pwyllgor Polisi ac Addysg fanyleb/penodiad Ymwelwyr ar gyfer chwe Chymhwyster Cydnabyddedig a dau adroddiad Cymhwyster a Gydnabyddir gan Ymwelwyr Addysg.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r darparwyr addysg er mwyn deall materion allweddol sy'n effeithio ar y sector, megis recriwtio a chadw staff, a hwyluso cydweithio ar bynciau gan gynnwys sicrhau ymgysylltiad ystyrlon â chleifion ym maes addysg osteopathig.

## Llais y claf ym maes addysg osteopathig

Ym mis Chwefror 2024 cyhoeddwyd canfyddiadau ein hadolygiad thematig o ymgysylltiad â chleifion ym maes addysg israddedig osteopathig rhwng 2019 a 2023. Canfu'r adroddiad fod darparwyr addysg yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys llais y claf yn eu gwaith, a bod angen i'r fframwaith ar gyfer cynnwys cleifion gyd-fynd ag anghenion pob darparwr addysg penodol gan nad oes unrhyw fframwaith sy'n addas i bawb. Roedd cyfranogiad cleifion mewn addysg wedi esblygu'n sylweddol dros gyfnod yr adolygiad, o arolygon adborth ar bapur i gleifion yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ar lefel llywodraethu.

Roedd yr adolygiad thematig yn cynnwys arolwg ledled y sector, adolygiad llenyddiaeth ail ffynhonnell o gyfranogiad cleifion mewn cwricwla addysg gofal iechyd, gweithdai rhyngweithiol, adolygiad o adroddiadau blynyddol darparwyr a chyfweliadau lled-strwythuredig gyda chynrychiolwyr o'r holl ddarparwyr addysg. Nod yr adroddiad oedd cydweithio â darparwyr addysg osteopathig i sefydlu ymarfer da yn y sector; nodi rhwystrau a galluogwyr i gynnwys cleifion mewn addysg osteopathig; ac yna rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad gyda darparwyr.

**Nod strategol tri:** Byddwn yn datblygu perthynas agosach â'r cyhoedd a'r proffesiwn sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a thryloywder.

## Cynnwys cleifion

Yn 2023 derbyniwyd canlyniadau ein trydedd don o waith ymchwil i ganfyddiadau'r cyhoedd a chleifion, a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn 2014 ac eto yn 2018. Y nod yw rhoi cipolwg i ni ar ddealltwriaeth a chanfyddiadau o osteopathi a gwaith rheoleiddio osteopathig a sut y gallai hyn fod yn newid dros amser. Dangosodd yr adroddiad fod gwybodaeth am fanteision triniaeth, risgiau, costau a natur triniaeth yn bwysig i gleifion, yn enwedig cleifion hŷn. Mae gwybodaeth am ein proses bryderon yn bwysig iawn i bobl ag anableddau.

Ym mis Medi 2023 comisiynwyd gwaith ymchwil annibynnol i ganfyddiadau osteopathiaid, myfyrwyr a'n partneriaid allweddol ar draws y proffesiwn. Nod y gwaith ymchwil yw deall eu canfyddiadau o'r GOsC a sut rydym yn cyflawni ein rôl fel rheoleiddiwr. Agorodd cam cyntaf y prosiect, arolwg ar gyfer osteopathiaid a myfyrwyr, ym mis Chwefror 2024. Disgwylir i ganfyddiadau'r gwaith ymchwil, a fydd yn cynnwys trafodaethau ansoddol gydag osteopathiaid, myfyrwyr a rhanddeiliaid, gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2024.

Gwnaethom ddiweddaru'r wybodaeth am addasrwydd i ymarfer ar ein gwefan er mwyn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i wybodaeth am ein hachosion addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys manylion am ein proses bryderon, beth sy'n digwydd yn ystod gwrandawiad, a'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n rhan o'r broses. Ers cyflwyno'r diweddariad, mae cleifion neu bobl eraill yn gallu mynegi pryder trwy ddechrau'n uniongyrchol ar hafan ein gwefan.

## 30 mlynedd o gydnabyddiaeth

Ym mis Hydref 2023, daeth cymunedau osteopathig y DU a rhyngwladol at ei gilydd ar gyfer Confensiwn 2023 a oedd yn nodi 30 mlynedd o gydnabyddiaeth ers pasio Deddf Osteopathiaid 1993. Roedd y digwyddiad deuddydd yn cynnwys pob math o siaradwyr amrywiol yn trafod y themâu canlynol: ymarfer, rheoleiddio, addysg ac ymchwil.

Mynychodd dros 400 o gynrychiolwyr y Confensiwn ac roeddent yn gallu dewis o blith prif areithiau a draddodwyd gan Simon Fielding, Frank Willard a Renzo Molinari yn ogystal ag amrywiaeth eang o ddarlithoedd, trafodaethau a chyflwyniadau. Roedd y GOsC yn falch o wneud cyflwyniad ar reoleiddio osteopathig ochr yn ochr â Dr John Gimpel, Llywydd Bwrdd Cenedlaethol Arholwyr Meddygol Osteopathig; cymryd rhan yn y sesiwn fentora dan arweiniad Glynis Fox, Llywydd y Sefydliad Osteopathi sef y corff aelodaeth proffesiynol, ac arwain ein sesiwn ein hunain ar broffesiynoldeb.

Roedd y Confensiwn yn gyfle i gryfhau cysylltiadau â'n partneriaid rhyngwladol gan gynnwys cydweithwyr o Fwrdd Osteopathi Asiantaeth Rheoleiddio Ymarferwyr Iechyd Awstralia, Cyngor Osteopathig Seland Newydd, Osteopathi Ewrop a llawer o rai eraill.

Roeddem yn falch o groesawu rhai cyn-gydweithwyr i'r Confensiwn, a oedd yn

gyfle i ni ddiolch iddynt am eu hymdrechion yn y gorffennol. Roeddem wrth ein bodd bod Madeleine Craggs, ein Prif Weithredwr a Chofrestrydd cyntaf, yn gallu bod yn bresennol, ynghyd â Gillian Sellars, ein Pennaeth Cofrestru cyntaf. Hefyd, roedd cyfle i ni groesawu Tim Walker, cyn-Brif Weithredwr a Chofrestrydd, a Nigel Clarke, a olynodd Simon Fielding fel Cadeirydd y GOsC. Rydym yn diolch iddynt am eu gwaddol.

## Diogelu'r cyhoedd trwy addasrwydd i ymarfer

Eleni yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar Gyflwyno Gorchmynion Atal Dros Dro a Nodyn Ymarfer ar Ymgymeriadau. Yn dilyn ymgynghoriad a ddaeth i ben ym mis Hydref 2023, ac ar ôl gwerthusiad gofalus o'r ymatebion a gawsom i'n Polisi Cyhoeddi Addasrwydd i Ymarfer gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, fe wnaethom gyhoeddi polisi diwygiedig a gwell.

Fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus â'r proffesiwn, cynhaliwyd gweminar ym mis Medi 2023 a oedd yn canolbwyntio ar Orchmynion Atal Dros Dro ac Ymgymeriadau. Roedd y weminar yn gyfle i ni ymgysylltu ag osteopathiaid a helpu i chwalu mythau a lleihau camargraffiadau wrth gynyddu dealltwriaeth.

Fe wnaethom barhau i ddarparu cymorth i bawb a oedd yn rhan o ymchwiliad addasrwydd i ymarfer trwy ddarparu'r Gwasanaeth Cymorth Annibynnol cyfrinachol di-dâl, sydd ar gael i osteopathiaid, cleifion a thystion yn ystod pob cam o'r broses. Diogelu'r cyhoedd yw ein ffocws craidd o hyd, ac yn ogystal â phrosesu pryderon sy'n dod i law mewn modd amserol ac effeithlon, rydym yn diogelu'r teitl osteopathig. Eleni rydym wedi dwyn erlyniad llwyddiannus yn erbyn Nigel Graham a oedd yn defnyddio'r teitl osteopath yn anghyfreithlon pan nad oedd hawl ganddo i wneud hynny.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym wedi parhau i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hadlewyrchu yn ein holl waith. Eleni, fe wnaethom groesawu craffu ychwanegol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod ein hadolygiad o berfformiad. Mae bodloni'r safon allanol hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad yn y maes hwn.

Yn 2023 roeddem wrth ein bodd yn mynychu'r digwyddiad Balchder yn Llundain am y tro cyntaf erioed. Fe wnaethom gymryd rhan yn yr orymdaith ochr yn ochr â chydweithwyr o'r corff aelodaeth proffesiynol, y Sefydliad Osteopathi, darparwyr addysg, osteopathiaid, myfyrwyr a chleifion. Cafodd yr eiliad hanesyddol hon ei chofnodi mewn blog gan ein Prif Weithredwr: **Myfyrdodau ar ddigwyddiad Balchder yn Llundain 2023.**

Derbyniodd Cyngor y GOsC ddiweddariad gan Dr Jerry Draper-Rodi ar brosiect dwy flynedd sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan y GOsC, Coleg Prifysgol Osteopathi, a'r Sefydliad Osteopathi, er mwyn edrych ar brofiadau israddedigion o addysg a hyfforddiant osteopathig (UrGEnT). Er bod canfyddiadau'r prosiect UrGEnT yn parhau i gael eu hystyried, rydym wedi hwyluso recordiad o weminar rhwng Yinka Fabusuyi a Dr Jerry Draper-Rodi, sy'n archwilio dulliau o wella hygyrchedd a hyrwyddo cynwysoldeb darparwyr addysg osteopathig.

Eleni fe wnaethom rannu canllawiau i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn mewn ymarfer osteopathig. Mae'r canllawiau'n esbonio sut mae'r Safonau Ymarfer Osteopathig yn gallu helpu osteopathiaid i ddarparu gofal mwy cynhwysol er mwyn diwallu anghenion eu cleifion yn well, ac maent yn cynnwys dolenni i amrywiaeth eang o adnoddau defnyddiol. Mae'r pynciau'n cynnwys cyfathrebu, codi llais a phroffesiynoldeb.

**Nod strategol pedwar:** Byddwn yn enghraifft i eraill ym maes rheoleiddio gofal iechyd modern – hygyrch, effeithiol, arloesol, ystwyth, cymesur a myfyriol.

## Recriwtio anweithredol

Bu llawer o recriwtio anweithredol eleni, gyda 16 swydd ar gael ar draws ein strwythur llywodraethu. Rydym yn rheoli gweithgareddau recriwtio yn fewnol er mwyn osgoi ysgwyddo costau uchel asiantaethau allanol.

Rydym wrth ein bodd bod ein gwaith i fod yn sefydliad cynhwysol wedi arwain at dderbyn y set fwyaf amrywiol o geisiadau erioed ar gyfer ein swyddi anweithredol. Rydym yn credu bod hyn yn adlewyrchiad cadarnhaol o ganfyddiad pobl o'r proffesiwn a'r rheoleiddiwr, a'r ffaith eu bod eisiau dod i weithio i'r GOsC ac ychwanegu gwerth at ein gwaith.

Ym mis Mawrth 2024 penodwyd Gabrielle Anderson yn Aelod Cyswllt newydd y Cyngor, yn dilyn diwedd tymor un o Aelodau Cyswllt cyntaf y Cyngor, Harriet Lambert. Mae rhaglen Aelodau Cyswllt Cyngor y GOsC yn caniatáu i ddau osteopath gysgodi'r Cyngor a mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd er mwyn datblygu eu sgiliau llywodraethu ac arweinyddiaeth. Diolchwn i Harriet am ei gwaith a dymunwn yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

## Safonau'r Gymraeg

Bu ffocws sylweddol eleni ar weithredu Safonau Iaith newydd a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r Safonau, sy'n ceisio sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, wedi ei gwneud yn ofynnol i ni wneud newidiadau i sut rydym yn darparu gwybodaeth i osteopathiaid a myfyrwyr yng Nghymru; sut mae ein system ffôn yn gweithredu; sut rydym yn cyfieithu ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth ar ein gwefan; a sut rydym yn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg. O ganlyniad, rydym wedi ehangu adran Gymraeg ein gwefan gyhoeddus; wedi cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'n hanimeiddiad Ymweld ag Osteopath ar gyfer cleifion fel rhan o gasgliad ehangach o adnoddau Cymraeg i gleifion; ac wedi darparu e-fwletin Cymraeg i fyfyrwyr a lansiwyd yn ddiweddar ar gyfer myfyrwyr sy'n byw neu'n astudio yng Nghymru.

## Effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a pherfformiad gweithredol

Roedd yn destun balchder i ni fod yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n adolygu gwaith holl reoleiddwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn flynyddol, wedi adrodd bod y GOsC wedi bodloni'r holl safonau rheoleiddio da unwaith eto, am y drydedd flwyddyn ar ddeg yn olynol. Rydym yn parhau i fod yr unig reoleiddiwr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â record o'r fath, ac rydym yn falch o'n tîm a'n cydweithwyr anweithredol am ein cynorthwyo i gyflawni hyn.

Yn ystod 2023-24 fe wnaethom barhau i gyflawni ein swyddogaethau craidd yn gyson, gan gynnwys rheoli ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a chynnal ein Cofrestr.

Rydym yn ymateb i bryderon sy'n cael eu codi am ymarfer anghyfreithlon posibl. Nid oes angen gweithredu mewn ymateb i bob pryder sy'n cael ei godi, ond yn 2023-24 fe wnaethom anfon 11 llythyr ymatal ac fe wnaethom ddatrys 18 achos. Eleni fe

wnaethom erlyn un unigolyn yn llwyddiannus am ddisgrifio ei hun yn anghyfreithlon fel osteopath pan oedd wedi'i atal dros dro o'r Gofrestr.

Cawsom 68 o bryderon yn 2023-24. Cafodd 37 o'r rhain eu troi'n bryderon ffurfiol.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth Pwyllgor Ymchwilio'r GOsC ddod i benderfyniad terfynol mewn 24 achos. Cafodd 11 o'r achosion hyn eu hatgyfeirio i wrandawiad llawn o'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol; mewn 3 achos, fe gafodd yr unigolyn ar y gofrestr gyngor gan y Pwyllgor Ymchwilio, ac yn y 10 achos arall, penderfynwyd nad oedd achos i'w ateb ac nad oedd angen unrhyw gamau pellach.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 7 achos; mewn 3 o'r achosion, cyflwynwyd cosb yn erbyn yr osteopath (gweler y tabl).


| Cosbau a gyflwynwyd mewn achosion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 2023-24 | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Cerydd | 2 |
| Amodau ymarfer | 1 |
| Atal dros dro | 0 |
| Dileu | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** |

## Gwybodaeth am y Gofrestr


Ar 31 Mawrth 2024, roedd 5,519 o osteopathiaid wedi'u cofrestru gyda'r GOsC.




| Rhywedd | Nifer |
|---|---|
| Dynion | 2,655 (48%) |
| Menywod | 2,864 (52%) |
| **Cyfanswm** | **5,519 (100%)** |



| Lleoliad daearyddol pobl sydd wedi cofrestru | Nifer |
|---|---|
| Lloegr | 4,745 |
| Gogledd Iwerddon | 30 |
| Yr Alban | 165 |
| Cymru | 163 |
| Gweddill y byd | 416 |
| **Cyfanswm** | **5,519** |



Mae **4,745** o osteopathiaid yn Lloegr

Mae **165** o osteopathiaid yn yr Alban

Mae **163** o osteopathiaid yng Nghymru

Mae **30** o osteopathiaid yng Ngogledd Iwerddon

Mae **416** o osteopathiaid yng ngweddill y byd

Hyfforddwyd y 268 o osteopathiaid newydd neu'r rhai a oedd yn dychwelyd i'r Gofrestr yn y darparwyr addysg canlynol:

| Lle hyfforddi | Nifer yn ymuno â'r Gofrestr |
|---|---|
| Coleg Meddygaeth Osteopathig Prydain | 29 |
| Coleg yr Osteopathiaid | 34 |
| Ysgol Osteopathi Ewrop | 43 |
| Ysgol Osteopathi Llundain | 19 |
| Prifysgol Technoleg Brookes Rhydychen | 1 |
| Coleg Gogledd-ddwyrain Surrey | 15 |
| Prifysgol Abertawe | 29 |
| Prifysgol St Marks a St John (Marjon) | 15 |
| Coleg Prifysgol Osteopathi | 79 |
| Tramor | 4 |
| **Cyfanswm** | **268** |

Cwblhaodd ein tîm o Aseswyr Cofrestru, pob un ohonynt yn osteopathiaid cymwysedig, gyfanswm o 46 asesiad cofrestru yn 2023-24, sy'n cymharu â 50 o asesiadau cofrestru a gwblhawyd yn y flwyddyn flaenorol.

| Math o asesiad | Nifer |
|---|---|
| Asesiad cymhwyster y tu allan i'r DU | 15 |
| Asesiad rhagor o dystiolaeth o ymarfer | 8 |
| Asesiad o berfformiad clinigol | 6 |
| Cyfweliad dychwelyd i ymarfer | 17 |
| **Cyfanswm** | **46** |

# 7 Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf

Eleni fe wnaethom ddatblygu Strategaeth newydd, ymgynghori arni a'i chymeradwyo, hyd at 2030. Mae'r Strategaeth newydd hon yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ein blaenoriaethau strategol a'n camau gweithredu allweddol, ac mae'r cyfan yn seiliedig ar ein gwerthoedd sefydliadol newydd.

O 1 Ebrill 2024, ein gweledigaeth yw bod yn rheoleiddiwr cynhwysol ac arloesol y mae pawb yn ymddiried ynddo.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi cytuno ar dair blaenoriaeth strategol:

**Cryfhau ymddiriedaeth: Byddwn yn gweithio i wella ein perthynas â'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn mynd ati ar y cyd i amddiffyn cleifion a'r cyhoedd.**

Beth ydyn ni'n bwriadu ei wneud?

- Archwilio'r berthynas rhwng y GOsC ac osteopathiaid ac effaith bosibl y berthynas hon ar ymddiriedaeth, ac ar ddiogelwch cleifion.
- Gweithio mewn partneriaeth ag osteopathiaid, cleifion, addysgwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn modelu'r gwerthoedd a'r ymddygiad a ddisgwylir gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Comisiynu gwaith ymchwil er mwyn ein helpu i ddeall effaith rheoleiddio ar ymddiriedaeth.
- Cynnal ac asesu canlyniadau arolygon rheolaidd o osteopathiaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd/cleifion er mwyn mesur effaith ein gweithgareddau dros amser a chymryd camau priodol.

**Hyrwyddo cynhwysiant: Mae'n bwysig i ni fod pobl sy'n rhyngweithio â ni neu sy'n gweithio i ni yn gallu ymddwyn yn unol â'u natur a'n bod yn deall ac yn chwalu unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny.**

Beth ydyn ni'n bwriadu ei wneud?

- Bod yn atebol a dangos mewn ffordd weithredol y mathau o ymddygiad rydym yn gobeithio eu gweld ledled y proffesiwn a chyda rhanddeiliaid trwy fyw'r gwerthoedd rydym wedi'u cytuno.
- Dadansoddi effaith ein data monitro cydraddoldeb, a chymryd camau priodol o ganlyniad, er mwyn bod yn hyderus bod ein prosesau a'n polisïau yn gynhwysol ac nid yn wahaniaethol.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Gwella ansawdd data monitro cydraddoldeb ledled y sefydliad a chymryd camau priodol o ganlyniad.
- Recriwtio casgliad amrywiol a chynhwysol o ddoniau i'n swyddi Gweithredol ac Anweithredol er mwyn sicrhau ein bod yn fwy cynrychioliadol o'r gymdeithas ehangach.

**Croesawu arloesedd: Byddwn yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud, fel ein bod yn parhau i wella fel sefydliad.**

Beth ydyn ni'n bwriadu ei wneud?


- Cynorthwyo'r sector addysg osteopathig i archwilio dulliau gwahanol ac arloesol o gyflawni canlyniadau i raddedigion a safonau ar gyfer addysg.
- Chwilio am ddulliau newydd o sicrhau bod llais osteopathiaid a chleifion yn parhau i fod wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Comisiynu gwaith ymchwil i wella datblygiad ein gwaith ym meysydd addysg a hyfforddiant, safonau ac addasrwydd i ymarfer.
- Ystyried sut y gellir cryfhau strwythur llywodraethu'r GOsC trwy fewnbwn gan gleifion ac osteopathiaid.

## Ein Gwerthoedd GOsC newydd

Mae ein gwerthoedd yn sylfaen i'n dulliau gweithredu nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sut rydym yn gweithio gyda chleifion a'r cyhoedd, osteopathiaid a rhanddeiliaid, sut rydym yn gweithio o fewn ein sefydliad a ledled ein timau. Rydym yn cydweithio ag eraill i fod yn rheoleiddiwr dylanwadol sy'n dangos parch at eraill trwy weithredu ar sail tystiolaeth.



### Cydweithredol

Rydym yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau bod cleifion ac osteopathiaid yn ganolog i'n dull rheoleiddio.



### Dylanwadol

Rydym yn ceisio cefnogi a datblygu'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd.



### Dangos parch

Rydym yn ceisio gwrando ar safbwyntiau'r bobl rydym yn ymgysylltu â nhw, eu deall a'u hystyried.



### Seiliedig ar dystiolaeth

Rydym yn defnyddio tystiolaeth amrywiol i lywio ein gwaith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion a'r cyhoedd.

# 8 Adroddiad ariannol a chyfrifon 2023-24

## Cyflwyniad

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, cafwyd y gostyngiad mwyaf mewn lefelau chwyddiant ers y pandemig. Fodd bynnag, mae'r lefelau'n dal i fod yn uwch na thargedau Banc Lloegr, ac mae'r argyfwng costau byw yn parhau.

Yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, rydym yn cydnabod cyflwr 'normal newydd' newid parhaus, ac roeddem yn rhagweithiol yn ein defnydd strategol o adnoddau.

Mae'r canlyniad ariannol ar gyfer y flwyddyn yn ffafriol i'r ffigwr a gyllidebwyd, sef tua £9,000. Yn gyffredinol, roedd ffioedd cofrestru'n cyd-fynd â'r amcangyfrif, ac fe gawsant eu cefnogi gan enillion buddsoddiad gwerth tua £95,000, ynghyd â thanwariant o tua £174,000 ar bwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer. Fodd bynnag, cafodd y ffigur hwn ei wrthbwyso gan orwariant mewn costau TG gwerth tua £137,000, Cyflogau a Phensiynau (£65,000), Llywodraethu (£34,000), Ymgysylltu a Digwyddiadau (£32,000), a Sicrhau Ansawdd (£32,000).

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn edrych yn rheolaidd ar ein dull o reoleiddio er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ychwanegu gwerth.

- Sut allwn ni wneud ein gwaith yn symlach ac yn fwy cost-effeithiol?
- Sut allwn ni sicrhau ein bod ni'n gwrando, yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu'n effeithiol ar adeg pan fo rhyngweithiadau wyneb yn wyneb wedi lleihau?
- Sut ydyn ni'n sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol craidd mewn modd pwyllog a phriodol?

Dair blynedd yn ôl, fe wnaethom gyflwyno ein Cynnig Gwerth, ac rydym yn defnyddio hwn i ddisgrifio sut mae ein gwaith yn ychwanegu gwerth. Rydym wedi nodi yn yr adroddiad hwn sut mae ein gwaith yn 2023-24 yn cyd-fynd â'r dull gweithredu hwn.

## Y Cynnig Gwerth

Mynegir ein dull rheoleiddio trwy ein nodau yng Nghynllun Strategol 2019-24 a'n Cynlluniau Busnes sylfaenol a ddatblygir gennym bob blwyddyn.

Nod penodol y gweithgareddau sy'n cael eu hamlinellu yn y cynlluniau busnes blynyddol yw:

- grymuso a chefnogi'r unigolion ar ein cofrestr, sy'n gweithredu'n bennaf yn y sector annibynnol gan ddarparu gofal 'uniongyrchol' i gleifion
- cydweithio â'n partneriaid ledled y sector rheoleiddio
- cryfhau ein bwriad i roi'r claf wrth galon ein holl waith
- sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i'n gwaith
- cyflawni ein swyddogaeth statudol graidd

## Yr egwyddorion sy'n sylfaen i'r Cynnig Gwerth

Mae'r Cynnig Gwerth yn seiliedig ar set o werthoedd craidd sy'n cefnogi sut rydym yn gweithio ac yn llywio datblygiad ein cynlluniau a'n cyllidebau busnes.

Yr egwyddorion hyn yw:

- **Cyflawni ein swyddogaethau statudol craidd:** byddwn yn sicrhau bod lefelau priodol o gyllid ar gael er mwyn cyflawni ein swyddogaethau statudol craidd.
- **Gwrando ar lais y claf:** byddwn yn dyrannu adnoddau fel bod llais y claf yn llywio ein gwaith nawr ac yn y dyfodol.
- **Rheoleiddio rhagofalus:** byddwn yn sicrhau ein bod yn nodi ac yn ariannu gweithgareddau sy'n cefnogi rheoleiddio rhagofalus, ac sy'n berthnasol ac yn briodol ar gyfer ein cyd-destun.

- **Gwelliant parhaus:** byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i ysgogi gwelliant parhaus er mwyn bod yn sefydliad gwell yfory nag yr ydym ni heddiw.
- **Digidol yn gyntaf:** byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu dull gweithredu digidol yn gyntaf er mwyn symleiddio ein gweithgareddau.
- **Bod yn gost-effeithlon ac yn gost-effeithiol:** rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn ofalus, mewn ffordd gost-effeithlon a chost-effeithiol.

Rydym o'r farn fod tair elfen i'n cynnig gwerth:

1. **Sicrhau diogelwch y cyhoedd**
2. **Datblygu'r proffesiwn**
3. **Darparu llywodraethu cadarn**

**Elfen Un: Sicrhau diogelwch y cyhoedd**

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar ein gwaith i sicrhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

Mae ein gweithgareddau i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn cynnwys:

- sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant
- datblygu, gosod a chynnal Safonau Ymarfer Osteopathig
- cynnal uniondeb y Gofrestr Statudol o Osteopathiaid
- rheoli pryderon trwy ein prosesau addasrwydd i ymarfer

Mae diogelu'r cyhoedd yn ganolog i'r gwaith rydym yn ei wneud, ac adlewyrchir hyn gan y gweithgareddau o dan yr elfen hon sy'n cwmpasu holl weithgareddau ein busnes.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, gwariwyd £1.37m ar ein gweithgareddau i sicrhau diogelwch y cyhoedd (2023: £1.58m).

Roedd hyn yn cyfateb i 45% o gyfanswm ein cyllideb (2023: 54%) ac mae'n golygu ein bod yn gwario £256 o bob ffi gofrestru o £570 a gawn ar sicrhau diogelwch y cyhoedd (2023: £304).

**Elfen dau: Datblygu'r proffesiwn**

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar ein gwaith i sicrhau ein bod yn datblygu'r proffesiwn ac yn darparu cymorth priodol er mwyn iddo ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Mae ein gweithgareddau i ddatblygu'r proffesiwn yn cynnwys:

- cynorthwyo'r proffesiwn i ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) er mwyn cynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth
- cyfrannu arian at y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig
- ariannu tanysgrifiad ledled y proffesiwn ar gyfer yr International Journal of Osteopathic Medicine a chyfnodolion ymchwil eraill fel The Lancet a Manual Therapy
- casgliad o weithgareddau cyfathrebu gyda phwyslais newydd ar wrando ac ymgysylltu

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, gwariwyd £0.71m ar ein gweithgareddau i sicrhau ein bod yn datblygu ac yn cefnogi'r proffesiwn (2023: £0.69m).

Roedd hyn yn cyfateb i 24% o gyfanswm ein cyllideb (2023: 23%) ac mae'n golygu ein bod yn gwario £137 o bob ffi gofrestru o £570 a gawn ar ddatblygu'r proffesiwn. (2023: £133).

**Elfen Tri: Darparu llywodraethu cadarn**

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar bwysigrwydd darparu llywodraethu cadarn. Dylai llywodraethu da sicrhau bod sefydliad yn parhau'n sefydlog, yn gynhyrchiol a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Mae ein gweithgareddau i ddarparu llywodraethu cadarn yn cynnwys:

- penodi, hyfforddi, a chynnal strwythur llywodraethu sy'n cynnwys y Cyngor, y Pwyllgor Polisi ac Addysg, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Pobl
- cynnal cyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus a sicrhau bod papurau'r cyfarfod ar gael ymlaen llaw
- buddsoddi yn ein seilwaith TG a dulliau digidol newydd o weithio
- sicrhau bod ein gwaith yn destun archwiliadau ac adolygiadau annibynnol

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, gwariwyd £0.93m ar ein gweithgareddau i sicrhau ein bod yn darparu llywodraethu cadarn (2023: £0.69m). Mae'r cynnydd hwn a ragwelwyd yn adlewyrchu'r ffaith y buom yn rheoli, yn fewnol, nifer sylweddol o benodiadau anweithredol (16 swydd) wrth i gyfnodau gwasanaethu aelodau'r Cyngor ac aelodau pwyllgorau ddirwyn i ben.

Roedd hyn yn cyfateb i 31% o gyfanswm ein cyllideb (2023: 23%) ac yn golygu ein bod yn gwario £177 o bob ffi gofrestru o £570 a gawn ar ddarparu llywodraethu cadarn (2023: £133).


**Tabl yn dangos y Cynnig Gwerth, gwariant yn y flwyddyn, % o gyfanswm y gwariant a chyfran y ffi gofrestru o £570.**


| Elfennau'r Cynnig Gwerth | Gwariant yn y flwyddyn[1] £ | Canran y cyfanswm gwariant % | Cyfran y ffi gofrestru o £570 a ddefnyddiwyd £ |
|---|---|---|---|
| Sicrhau diogelwch y cyhoedd | 1.37m (2024)<br>1.58m (2023) | 45% (2024)<br>54% (2023) | 256 (2024)<br>304 (2023) |
| Datblygu'r proffesiwn | 0.71m (2024)<br>0.69m (2023) | 24% (2024)<br>23% (2023) | 137 (2024)<br>133 (2023) |
| Darparu llywodraethu cadarn[2] | 0.93m (2024)<br>0.69m (2023) | 31% (2024)<br>23% (2023) | 177 (2024)<br>133 (2023) |


1 Ac eithrio colledion buddsoddi a/neu daliadau

2 Noder nad yw'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig gwerth ar gyfer Llywodraethu yn ymwneud â'r nodiadau ar Lywodraethu yn y nodiadau i'r cyfrifon


**Beth mae'r ffi gofrestru yn ei ariannu yn ôl cynnig gwerth?**
Mae'r brif ffi gofrestru o £570 yn cael ei dadansoddi i ddangos cyfanswm y gwariant ledled cynnig gwerth y GOsC yn 2023-24.






- Sicrhau diogelwch y cyhoedd **45%**
- Datblygu'r proffesiwn **24%**
- Darparu prosesau llywodraethu cadarn **31%**




- Sicrhau diogelwch y cyhoedd **54%**
- Datblygu'r proffesiwn **23%**
- Darparu prosesau llywodraethu cadarn **23%**

**Incwm a gwariant**

Cyflwynir y cyfrifon, sy'n cael eu dangos yn fanylach dros y tudalennau nesaf, yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (Safon Adrodd Ariannol 102).

Roedd gan y GOsC warged o £23,666 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol; rhoddwyd hwb i'r ffigur hwn gan enillion buddsoddiad gwerth tua £95,000.

Ar ddiwedd y flwyddyn, cyfanswm yr incwm oedd £2,923,695. Roedd dros 99% o gyfanswm yr incwm yn dod o ffioedd cofrestru. Nid yw ffioedd cofrestru wedi cynyddu, ac unwaith eto maen nhw wedi cael eu cadw ar eu lefel bresennol am y ddegfed flwyddyn yn olynol, sy'n ostyngiad mewn termau real. Daeth gweddill yr incwm o feysydd fel asesiadau cofrestru, llog banc, ac enillion o bortffolios buddsoddi.

Nid oes gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol unrhyw weithgareddau codi arian sy'n gofyn am ddatgeliad o dan Adran 162A Deddf Elusennau 2011.

Cyfanswm gwariant y flwyddyn oedd £2,994,590 ar ôl gwariant dynodedig; dangosir dadansoddiad o'r gwariant hwn ar y ddwy dudalen nesaf.

**Costau rheoleiddio a datblygu**

Mae costau gweithgareddau rheoleiddiol y GOsC yn perthyn i'r pedwar prif faes canlynol (noder bod costau staffio'n cael eu cynnwys ym mhob un o'r rhain):

- **Addysg a safonau proffesiynol**

  Mae sicrhau ansawdd darparwyr addysg osteopathig yn parhau i fod yn elfen sylfaenol o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn, ochr yn ochr â datblygu a chyflwyno'r cynllun datblygiad proffesiynol parhaus.

  Yn 2023-24, ysgwyddwyd costau uniongyrchol gwerth £525,382 yn y maes hwn yn y flwyddyn, o gymharu â £437,773 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 20%. Roedd costau uniongyrchol mewn perthynas â sicrhau ansawdd oddeutu £156,000, a gwariwyd tua £33,000 ar weithgareddau ymchwil.

- **Cofrestru**

  Yn 2023-24, ysgwyddwyd costau uniongyrchol gwerth £175,986 yn y maes hwn, o gymharu â £182,753 yn y flwyddyn flaenorol, gostyngiad o 4%. Cyfanswm y costau nad ydynt yn gysylltiedig â staffio oedd tua £21,000 ac roeddent yn cynnwys costau asesu cofrestru a gwariant cysylltiedig ar gyfer hyfforddi ac arfarnu aseswyr cofrestru.

- **Addasrwydd i ymarfer a chyfreithiol**

  Cost cynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau yw'r elfen unigol fwyaf o wariant y GOsC nad yw'n ymwneud â staff.

  Yn 2023-24, ysgwyddwyd costau uniongyrchol gwerth £618,335 yn y maes hwn, o gymharu â £830,870 yn y flwyddyn flaenorol, gostyngiad o 26%. Roedd hyn yn cynnwys costau'r Pwyllgor Ymchwilio, sef tua £102,000, ac roedd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol wedi ysgwyddo gwariant gwerth tua £142,000.

- **Cyfathrebu, ymchwil a datblygu**

  Yn 2023-24, ysgwyddwyd costau uniongyrchol gwerth £434,964 yn y maes hwn, o gymharu â £420,890 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 3%. Roedd costau'n ymwneud â datblygu a chynnal y wefan a chyhoeddiadau oddeutu £44,000. Yn ogystal, mae'r gost gyffredinol yn cynnwys darparu mynediad di-dâl at gyfnodolion ymchwil ar gyfer osteopathiaid, a dyraniad ar gyfer costau seilwaith y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig gwerth tua £64,000.

**Costau gweinyddol a gorbenion**

Mae meysydd cost eraill y GOsC yn ymwneud â seilwaith y sefydliad, gan gynnwys costau adeiladau a TG, a chostau gweinyddu Cyngor a phwyllgorau'r GOsC, sy'n swyddogaethau hanfodol ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol.

- **Llywodraethu**

  Mae costau llywodraethu'n ymwneud â lwfansau aelodau'r Cyngor, treuliau pwyllgorau, arfarniadau, a recriwtio aelodau newydd.

  Yn 2023-24, cyfanswm y costau llywodraethu oedd £497,715, o gymharu â £431,648 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 15%. Y prif reswm am hyn oedd y cynnydd yng nghost cyfarfodydd y cyngor a chostau penodiadau'r cyngor. Roedd y costau llywodraethu'n cynnwys yr ardoll ar bob rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol yn ymwneud â chostau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol; talodd y GOsC ardoll o £14,118.

- **Seilwaith TG**

  Eleni roedd y gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod seilwaith TG y GOsC yn ddiogel ac yn addas i'r diben. Mae gwariant ar TG yn adlewyrchu cost Cofrestr y Cyngor, y system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) a gwasanaethau swyddfa eraill.

  Yn 2023-24, cyfanswm y costau TG oedd £216,849, o gymharu â £128,440 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 69%. Y prif reswm am hyn oedd cynnydd mewn costau seilwaith a chyflwyno system CRM newydd.


- **Gweinyddu a sefydlu**

  Mae gwariant yn y maes hwn yn adlewyrchu costau eiddo, gweinyddu swyddfa cyffredinol a theithio. Hefyd, mae'n cynnwys ffioedd archwilio, llog banc, taliadau buddsoddi, a dibrisiant.

  Yn 2023-24, cyfanswm y costau gweinyddu oedd £245,725, o gymharu â £270,187 yn y flwyddyn flaenorol, gostyngiad o 9%. Y prif reswm am hyn yw gostyngiadau yng nghostau gweinyddu'r swyddfa a dibrisiant.

**Beth mae'r ffi gofrestru yn ei ariannu?**

Mae'r brif ffi gofrestru o £570 yn cael ei dadansoddi isod i ddangos swm y gwariant ar bob swyddogaeth y Cyngor yn 2023-24.




**Gweinyddu a sefydliad (£60.69)**
Yn cynnwys ffioedd adeiladau, gweinyddu swyddfeydd ac archwilio.

**Cyfathrebu, ymchwil a datblygu (£82.79)**
Yn cynnwys gwybodaeth gan GOsC a mynediad di-dâl at gyfnodolion ymchwil ar gyfer osteopathiaid trwy'r parth o

**Addysg a safonau proffesiynol (£100.00)**
Sicrhau ansawdd darparwyr addysg osteopathig; cynllun DPP, ac adolygu a diweddaru'r OPS.

**Addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys cyfreithiol (£117.70)**
Cynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau; pwyllgorau a chostau cyfreithiol.

**Llywodraethu (£94.74)**
Cynnal y Cyngor a phwyllgorau ac ardoll gwerth £14,118 i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol.

**Adnoddau a Sicrwydd (£80.59)**
TG ar gyfer y Gofrestr, system rheoli cysylltiad â chwsmeriaid a gwasanaethau swyddfa eraill.

**Cofrestru (£33.49)**
Cynnal y Gofrestr a chostau asesu cofrestru.

## Cronfeydd wrth gefn a buddsoddiadau

**Polisi cronfeydd wrth gefn**

Mae'r GOsC yn cadw cronfeydd wrth gefn fel rhan o ymarfer busnes da er mwyn sicrhau bod arian ar gael os oes digwyddiadau annisgwyl yn codi, megis cynnydd mewn gwariant neu ostyngiad mewn incwm. Mae'r Cyngor yn adolygu'r cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn. Mae sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2023-24 wedi'i nodi isod.

Mae'r Fantolen yn dangos cyfanswm o £2,882,430 o gronfeydd wrth gefn. Mae holl gronfeydd wrth gefn y GOsC yn anghyfyngedig.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y meysydd sy'n cynnwys y risg ariannol fwyaf, sef:

- cynnydd yn nifer y pryderon
- adolygiadau barnwrol neu apeliadau cyfreithiol
- colledion na ellir eu hyswirio, e.e. dirwyon diogelu data
- cynnydd na chafodd ei ragweld mewn gweithgarwch sicrhau ansawdd

Ar ôl ystyried y risgiau hyn a'r effaith ariannol bosibl pe baent yn cael eu gwireddu, mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad y byddai'n ddoeth cadw cronfeydd wrth gefn o fewn amrediad targed o £350,000-£700,000.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023-24, mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn gwerth £838,946, sydd wedi'u cyfrif fel a ganlyn:

| | £ |
|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn a gedwir | 2,882,430 |
| Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig | – |
| Cronfeydd wrth gefn dynodedig | (496,213) |
| Asedau sefydlog gweithredol | (1,547,271) |
| Cronfeydd wrth gefn sy'n weddill | 838,946 |

Mae asedau sefydlog gweithredol yn cynnwys cyfanswm asedau diriaethol ac anniriaethol y GOsC.

Mae cronfeydd wrth gefn yn uwch na'r amrediad targed ar hyn o bryd. Bydd aelodau'r Cyngor yn ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a sut y bydd modd eu defnyddio ym mlwyddyn ariannol 2024-25. Mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad y dylid cyflwyno'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

**Strategaeth fuddsoddi**

Mae buddsoddiadau'n cael eu prisio ar sail pris y farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae enillion a cholledion a wireddwyd a nas gwireddwyd sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau yn cael eu credydu neu eu codi i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae buddsoddiadau'n cynnwys adneuon arian parod lle nad oes angen arian ar gyfer cyfalaf gweithio tymor byr.

Mae gan y GOsC fuddsoddiad o £1,269,682 mewn portffolio amrywiol, risg canolig. Rheolir y gronfa gan Brewin Dolphin ac fe'i dosbarthir ar y Fantolen fel ased anghyfredol.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'r Cyngor (y mae ei aelodau'n Ymddiriedolwyr yr elusen hefyd) yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol. Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Osteopathiaid 1993 i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y ddeddf hon, mae'r Cyngor wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y DU (Safonau Cyfrifyddu a deddfau perthnasol y DU).

Ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai ei fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r GOsC a'i elw neu ei golledion am y cyfnod hwn. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson
- cydymffurfio â'r dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau perthnasol
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus
- datgan a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu cymwys y DU, yn amodol ar unrhyw amrywiadau perthnasol sy'n cael eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y GOsC yn parhau fel busnes

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y GOsC a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y GOsC, ac sy'n galluogi'r Cyngor i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Osteopathiaid 1993 a Deddf Elusennau 2011. Hefyd, mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r GOsC ac mae'n cymryd camau rhesymol i asesu a rheoli risg, ymgymryd â gweithgareddau archwilio anariannol o waith y GOsC, a sicrhau bod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra yn cael eu hatal a'u canfod. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn aelod o'r Cyngor ac mae'n gallu adrodd ar faterion perthnasol ym mhob cyfarfod o'r Cyngor.

Cymeradwywyd gan y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2024 a llofnodwyd ar ei ran gan:



**Jo Clift**
Cadeirydd
18 Gorffennaf 2024

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 sy'n cynnwys y datganiad o weithgareddau ariannol, y fantolen a'r datganiad llif arian, a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (yr Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredin yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr elusen fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024 a symudiad net yr elusen mewn cronfeydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredin yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

### Sail y farn

Rydym wedi ein penodi fel archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno. Fe wnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar yr elusen, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn.

### Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ac yn y Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, heblaw am i'r

graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad, ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hynny.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rydym yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu a yw ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos yn gamddatganiad o bwys. Os byddwn yn nodi anghysondebau neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol o'r fath, mae'n ofynnol i ni bennu a oes yna gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu yn y wybodaeth arall. Os casglwn, ar sail y gwaith a wnaethom, fod y wybodaeth arall yma'n gamddatganiad perthnasol, mae'n ofynnol i ni adrodd hynny. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

**Materion y gofynnir i ni adrodd arnynt trwy eithriad**

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae'n ofynnol i ni adrodd i chi amdanynt o dan Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, os ydym o'r farn:

- nad yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- ni chadwyd digon o gofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr am y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y datganiad o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr ar dudalen 32, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn teimlo sy'n angenrheidiol fel y gellir paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, materion yn ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r elusen neu ddod â gweithrediadau i ben, neu nad oes ganddynt ddewis arall ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd ar lefel uchel, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) yn canfod camddatganiad o bwys bob tro. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn sylweddol os gellid disgwyl yn rhesymol y byddant, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau

ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achos o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Ar sail ein dealltwriaeth o'r elusen a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo, fe wnaethom nodi bod y prif risgiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn ymwneud â gofynion rheoliadol Deddf Osteopathiaid 1993, ac fe wnaethom ystyried i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfiaeth gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Hefyd, fe wnaethom ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n effeithio'n uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol megis y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, deddfwriaeth ar drethu, Deddf Elusennau 2011 a deddfwriaeth cyflogaeth.

Gwerthuswyd cymhellion a chyfleoedd y rheolwyr i ymdrin â'r datganiadau ariannol mewn modd twyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau) a phenderfynwyd bod y prif risgiau'n ymwneud â chofnodion amhriodol am refeniw mewn dyddlyfrau a rhagfarn rheolwyr mewn amcangyfrifon cyfrifyddu. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd gan y tîm ymgysylltu'n cynnwys:

- Trafodaethau gyda'r rheolwyr gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu achosion tybiedig o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll;
- Gwerthuso rheolaethau'r rheolwyr a gynlluniwyd i atal a chanfod afreoleidd-dra;
- Nodi a phrofi cofnodion dyddlyfrau cyfrifyddu, yn enwedig cofnodion dyddlyfrau a oedd yn arddangos y nodweddion a nodwyd gennym fel dangosyddion posibl o afreoleidd-dra; a
- Herio rhagdybiaethau a phenderfyniadau a wnaed gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu critigol.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg na fyddwn yn canfod pob afreoleidd-dra, gan gynnwys y rhai sy'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. Mae'r risg hon yn cynyddu po fwyaf y caiff cydymffurfiaeth â chyfraith neu reoliad ei dileu o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, gan y byddwn yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth. Mae'r risg yn fwy hefyd gydag achosion o afreoleidd-dra yn sgil twyll yn hytrach na chamgymeriad, gan fod twyll yn cynnwys bwriad cudd, ffugio, cydgynllwynio, hepgor neu gam-gynrychioli.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.

**Defnyddio ein hadroddiad**

Ar gyfer aelodau'r elusen yn unig, fel corff, y paratowyd yr adroddiad hwn, yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau a wneir dan adran 154 y Ddeddf honno. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallwn ddatgan wrth ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan mewn Adroddiad Archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, mewn perthynas â'n gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, neu ein barn.



**Haysmacintyre LLP**
Archwilwyr Statudol
Dyddiad: 25 Gorffennaf 2024

10 Queen Street Place
Llundain EC4R 1AG

## Datganiad o Weithgareddau Ariannol

| Ar 31 Mawrth 2024 | Nodiadau | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Incwm o** | | | |
| Weithgareddau elusennol | 2 | **2,902,861** | 2,996,818 |
| Buddsoddiadau | 3 | **20,834** | 6,334 |
| **Cyfanswm** | | **2,923,695** | 3,003,152 |
| | | | |
| **Gwariant ar** | | | |
| Weithgareddau elusennol | 4 | **2,994,590** | 2,965,847 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **2,994,590** | 2,965,847 |
| | | | |
| (Gwariant)/incwm net cyn enillion/(colledion) ar fuddsoddiadau | | **(70,895)** | 37,305 |
| | | | |
| Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau | | **94,561** | (83,459) |
| **Incwm/(gwariant) net** | | **23,666** | (46,154) |
| | | | |
| **Cysoni cronfeydd** | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | **2,858,764** | 2,904,918 |
| **Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen** | 14 | **2,882,430** | 2,858,764 |

Mae'r gwarged/diffyg am y flwyddyn yn deillio o weithrediadau parhaus y GOsC.

Mae'r holl incwm a gwariant yn anghyfyngedig.

## Y Fantolen

| Ar 31 Mawrth 2024 | Nodiadau | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau anniriaethol | 8 | **–** | 2,709 |
| Asedau diriaethol | 8 | **1,547,271** | 1,587,871 |
| Buddsoddiad (portffolio) | 9 | **1,269,682** | 1,167,992 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **2,816,953** | 2,758,572 |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 10 | **407,610** | 393,947 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | **726,897** | 791,404 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **1,134,507** | 1,185,351 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Credydwyr: symiau i'w talu o fewn blwyddyn | 11 | **(1,069,030)** | (1,019,659) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(1,069,030)** | (1,019,548) |
| | | | |
| **Asedau cyfredol net** | | **65,447** | 165,692 |
| | | | |
| Darpariaethau | 13 | **–** | (65,500) |
| **Asedau net** | | **2,882,430** | 2,858,764 |
| | | | |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig | | | |
| - Cronfeydd wrth gefn dynodedig | | **496,213** | 222,093 |
| - Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | | **2,386,217** | 2,636,711 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn** | 14 | **2,882,430** | 2,858,764 |

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd i'w cyhoeddi gan aelodau'r Cyngor ar 18 July 2024
a llofnodwyd ar eu rhan gan:



**Jo Clift**
Cadeirydd

## Datganiad Llif Arian

| Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 | Nodiadau | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cysoni incwm/(gwariant) net i lif arian parod net o weithgareddau gweithredu:** | | | |
| Incwm/(gwariant) net ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol) | | **23,666** | (46,154) |
| Dibrisiant | | **60,310** | 66,533 |
| (Enillion)/colledion ar fuddsoddiad | | **(101,690)** | 81,576 |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | | **13,705** | 4,451 |
| Cynnydd mewn dyledwyr | 10 | **(13,663)** | (9,498) |
| Gostyngiad mewn credydwyr | 11 | **(16,129)** | (119,444) |
| **Arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(33,801)** | 22,536 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | | **(13,705)** | (4,451) |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | 8 | **(17,001)** | (6,863) |
| **Arian parod net (a ddefnyddir mewn) gweithgareddau buddsoddi** | | **(30,706)** | (11,314) |
| **Newid mewn arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod adrodd** | | **(64,507)** | (33,850) |
| Arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | **791,404** | 825,254 |
| **Arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **726,897** | 791,404 |
| **Arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | **726,897** | 791,404 |

## Nodiadau ar y datganiadau ariannol – Blwyddyn hyd at 31 Mawrth

**1. Prif bolisïau cyfrifyddu**

### Sail y cyfrifyddu

Sefydlwyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 ac fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig, a chyfeiriad y brif swyddfa yw Osteopathy House, 176 Tower Bridge Road, Llundain SE1 3LU.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r 'Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn SORP Elusennau y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011.

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail cost hanesyddol fel y'u haddaswyd gan ailbrisio buddsoddiadau.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn sterling (£). Mae'r GOsC yn bodloni'r diffiniad o 'endid budd cyhoeddus' o dan FRS 102.

### Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu o bwys

Er mwyn gallu paratoi'r datganiadau ariannol, mae'r GOsC wedi adolygu ei bolisïau cyfrifyddu a'r symiau a gofnodir yn y cyfrifon blynyddol i sicrhau bod unrhyw amcangyfrifon a dyfarniadau sydd â'r risg fwyaf o achosi addasiad perthnasol i'r cyfrifon yn cael eu datgelu. Ym marn y Cyngor, nid oes unrhyw amcangyfrifon na dyfarniadau arwyddocaol yn gysylltiedig â pharatoi'r datganiadau ariannol ac eithrio'r rhwymedigaeth ddigwyddiadol mewn perthynas â'r achos tribiwnlys cyflogaeth yn ymwneud â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

### Asedau anniriaethol

Yn unol â'r SORP Elusennau (FRS 102), mae cost gweinyddwyr a meddalwedd cwmwl (sy'n costio mwy na £750) yn cael eu trin fel asedau anniriaethol a byddant yn destun amorteiddio. Darperir amorteiddio ar asedau anniriaethol, ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Meddalwedd gyfrifiadurol | 5 mlynedd |

### Asedau sefydlog diriaethol

Mae'r holl asedau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn ac sy'n costio mwy na £1,000 (neu fwy na £750 ar gyfer offer cyfrifiadurol), yn cael eu cyfalafu. Darperir dibrisiant ar asedau sefydlog, ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeilad rhydd-ddaliadol | 50 mlynedd |
| Dodrefn swyddfa | 5 mlynedd |
| Offer swyddfa | 3 blynedd |
| Caledwedd cyfrifiadurol | 3 blynedd |

Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

### Incwm

Cydnabyddir incwm o ffioedd cofrestru a ffioedd eraill dros y cyfnod y darperir gwasanaeth, felly mae'r GOsC yn ennill hawl i'r incwm. Ar gyfer incwm o ffioedd cofrestru, mae'r cyfnod hwn yn para blwyddyn o'r dyddiad y cafodd yr unigolyn ei gynnwys ar y Gofrestr am y tro cyntaf. Mae incwm buddsoddi, gan gynnwys incwm llog banc, yn cael ei gyfrifyddu fel incwm sydd wedi'i ennill.

### Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau'n cael eu prisio ar sail pris y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae enillion a cholledion a wireddwyd a nas gwireddwyd sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau yn cael eu credydu neu eu codi i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae buddsoddiadau'n cynnwys adneuon arian parod lle nad oes angen arian ar gyfer cyfalaf gweithio tymor byr a'r bwriad yw cadw'r arian hwn i greu elw am fwy na 12 mis.

### Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau

Caiff rhwymedigaeth ei mesur adeg ei chydnabod ar sail ei chost hanesyddol, a'i mesur wedyn ar sail yr amcangyfrif gorau o'r swm sydd ei angen i dalu am y rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd.

### Gwariant

Cyfrifir am yr holl wariant ar sail croniadau. Caiff rhwymedigaeth ei chydnabod pan fydd y GOsC yn ymrwymo i rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti. Mae gwariant sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag un gweithgaredd yn cael ei ddyrannu i'r gweithgaredd hwnnw yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol. Mae costau y gellir eu priodoli i fwy nag un categori o wariant yn cael eu dosrannu ar sail yr amcangyfrif o faint o amser staff y gellir ei briodoli i'r gweithgaredd hwnnw yn ystod y flwyddyn.

### Cyfraniadau pensiwn

Mae'r GOsC yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer gweithwyr cymwys. Codir cyfraniad y cyflogwr am y flwyddyn i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y cyfnod y mae'n cael ei ennill gan y gweithiwr cyflogedig.

### Cyfrifyddu cronfeydd

Mae'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn aelodau'r Cyngor er mwyn hyrwyddo amcanion y GOsC. Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sy'n cael eu neilltuo yn ôl disgresiwn aelodau'r Cyngor at ddibenion penodol.

### Adneuon tymor byr

Mae adneuon tymor byr yn symiau o arian parod sy'n cael eu cadw fel adnau mewn banciau cydnabyddedig.

### Busnes gweithredol

Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u cronni dros gyfnodau ariannol blaenorol er mwyn gwrthsefyll unrhyw amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld, ac mae aelodau'r Cyngor (sy'n Ymddiriedolwyr hefyd) yn parhau i fabwysiadu'r dull cyfrifyddu sy'n seiliedig ar fusnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Un o'r mesurau sy'n cael eu defnyddio i benderfynu ar fusnes gweithredol yw lefel y cronfeydd wrth gefn. Gan fod y cronfeydd wrth gefn yn uwch na'r amrediad targed, mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad y gellir cyflwyno'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol heb unrhyw ansicrwydd perthnasol.

### Offerynnau ariannol

Mae natur asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol y GOsC yn cyfrif fel offerynnau ariannol sylfaenol. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar sail gwerth trafodion, ac ar ôl hynny maen nhw'n cael eu mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Mae asedau ariannol sy'n cael eu cadw ar sail cost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys arian parod, arian mewn banc ac arian mewn llaw, ynghyd â dyledwyr masnach a dyledwyr eraill. Mae rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu cadw ar sail cost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys croniadau, credydwyr masnach ac eraill.

## 2. Incwm o weithgareddau elusennol

Ffioedd cofrestru yw'r brif ffynhonnell incwm, ac mae mathau eraill o incwm sy'n cael eu derbyn yn cael eu nodi yn y dadansoddiad isod:

| | **2024 £** | 2023 £ |
|---|---|---|
| Ffioedd cofrestru | **2,877,915** | 2,994,788 |
| Incwm arall | **24,946** | 2,030 |
| **Cyfanswm** | **2,902,861** | 2,996,818 |

## 3. Incwm o fuddsoddiadau

| | **2024 £** | 2023 £ |
|---|---|---|
| Llog o fuddsoddiadau | **20,834** | 6,334 |
| **Cyfanswm** | **20,834** | 6,334 |

## 4. Gweithgareddau elusennol

Roedd gwariant ar gyfer pob swyddogaeth yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **Uniongyrchol £** | **Costau cymorth £** | **Cyfanswm 2024 £** | Cyfanswm 2023 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau elusennol** | | | | |
| Addysg a safonau proffesiynol | 525,382 | 297,582 | **822,964** | 698,145 |
| Cofrestru | 175,986 | 235,585 | **411,571** | 391,050 |
| Addasrwydd i ymarfer | 618,335 | 409,174 | **1,027,509** | 1,195,390 |
| Cyfathrebu ac ymchwil | 434,964 | 297,582 | **732,546** | 681,262 |
| **Cyfanswm** | **1,754,667** | **1,239,923** | **2,994,590** | 2,965,847 |

### 5. Costau cymorth

| | Rheoli £ | Llywodraethu £ | Gweinyddol £ | TG £ | Cyfanswm 2024 £ | Cyfanswm 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau cymorth** | | | | | | |
| Addysg a safonau proffesiynol | 133,655 | 52,909 | 58,974 | 52,044 | **297,582** | 260,372 |
| Cofrestru | 105,810 | 41,886 | 46,688 | 41,201 | **235,585** | 208,297 |
| Addasrwydd i ymarfer | 183,775 | 72,750 | 81,089 | 71,560 | **409,174** | 364,520 |
| Cyfathrebu ac ymchwil | 133,655 | 52,909 | 58,974 | 52,044 | **297,582** | 260,372 |
| **Cyfanswm** | **556,895** | **220,454** | **245,725** | **216,849** | **1,239,923** | 1,093,561 |

Mae costau cymorth (TG, Llywodraethu a Gweinyddu a Sefydliad wedi'u hailgodi ar draws y meysydd busnes eraill ar sail niferoedd staff yn yr adrannau hynny.

### 6. Llywodraethu

| | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| **Costau llywodraethu** | | |
| Ffioedd aelodau'r Cyngor (gan gynnwys Yswiriant Gwladol) | **103,992** | 102,261 |
| Costau llywodraethu eraill | **116,462** | 62,805 |
| **Cyfanswm** | **220,454** | 165,066 |

## Taliadau i aelodau anweithredol

**Aelodau'r Cyngor**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyfanswm gwerth cydnabyddiaeth a dalwyd i aelodau'r Cyngor (cyfanswm o 11) oedd £101,250 gan gynnwys lwfansau cyfrifoldeb (2023: £99,375). Yn ogystal, cyfanswm y treuliau a dalwyd yn uniongyrchol i aelodau'r Cyngor ac i gyflenwyr ar gyfer teithio a llety oedd £24,684 (2023: £14,765).

| Enw | Swydd | Lleoliad | Cydnabyddiaeth £ | Yswiriant Gwladol £ |
|---|---|---|---|---|
| Bill Gunnyeon | Cadeirydd | Yr Alban | 27,000 | 2,472 |
| Daniel Bailey | Aelod | Wolverhampton | 7,500 | - |
| Sarah Botterill** | Aelod | CymruW | 9,750 | 90 |
| Deborah Bowman*** | Aelod | Llundain | 9,750 | 90 |
| Elizabeth Elander | Aelod | Swydd Gaer | 7,500 | - |
| Caroline Guy | Aelod | Ynys Wyth | 7,500 | - |
| Simeon London | Aelod | Yr AlbanS | 7,500 | - |
| Patricia McClure | Aelod | Gogledd Iwerddon | 7,500 | - |
| Denis Shaughnessey* | Aelod | Hampshire | 9,750 | 90 |
| Deborah Smith | Aelod | Swydd Bedford | 7,500 | - |
| **Cyfanswm** | | | **101,250** | **2,742** |

* Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a dalwyd fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

** Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a dalwyd fel Cadeirydd y Pwyllgor Pobl

***Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a dalwyd fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi ac Addysg

Mae'r treuliau a ddangosir yn y tabl uchod yn cynnwys y rhai a dalwyd yn uniongyrchol i aelodau'r Cyngor a'r rhai a dalwyd i gyflenwyr ar gyfer costau teithio a llety.

Mae Deddf Osteopathiaid 1993 yn caniatáu taliadau cydnabyddiaeth i aelodau'r Cyngor.

**Aelodau o'r Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, talwyd ffi presenoldeb dyddiol o £320 i aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol am fynychu cyfarfodydd a gwrandawiadau'r GOsC. Hefyd, mae aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio yn derbyn lwfans darllen o £75 y dydd a ffi sgrinio o £12.50 fesul achos sy'n cael ei sgrinio. Hawliodd aelodau'r pwyllgorau hyn ffioedd presenoldeb dyddiol gwerth cyfanswm o £77,913, a thalwyd cyfanswm o £12,267 ar gyfer costau teithio a llety yn uniongyrchol i aelodau'r pwyllgor ac i gyflenwyr.

**Aelodau allanol o bwyllgorau eraill**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, talwyd ffi presenoldeb dyddiol o £320 i aelodau allanol o'r Pwyllgor Addysg Polisi, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Pobl am fynychu cyfarfodydd y GOsC. Hawliodd aelodau cyfetholedig y pwyllgorau hyn ffioedd presenoldeb dyddiol gwerth £7,344, a thalwyd cyfanswm o £5,800 ar gyfer costau teithio a llety yn uniongyrchol i aelodau'r pwyllgor ac i gyflenwyr.

**Gwariant net ar ôl codi ffioedd**

| | **2024**<br>**£** | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| **Gwariant net am y flwyddyn a nodir ar ôl codi ffioedd** | | |
| Ffioedd a dalwyd i Haysmacintyre LLP | | |
| - Archwiliad allanol | **23,760** | 21,600 |
| Dibrisiant asedau | **60,310** | 66,533 |

**7. Costau gweithwyr cyflogedig a staff**

Roedd costau staff yn ystod y flwyddyn fel a  ganlyn:

| | **2024**<br>**£** | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| **Costau staff** | | |
| CyflogauSa | **1,369,045** | 1,517,463 |
| Yswiriant Gwladol y Cyflogwr | **139,592** | 141,655 |
| Pensiynau | **148,273** | 121,288 |
| **Cyfanswm** | **1,656,910** | 1,780,406 |

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, ysgwyddwyd costau dileu swyddi a diswyddo gwerth £22,000 (2023: £ dim).

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| **Nifer cyfartalog y staff** | | |
| Swyddfa'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd | **4** | 4 |
| Addysg a safonau proffesiynol | **5** | 5 |
| Cofrestru | **4** | 4 |
| Adnoddau | **3** | 3 |
| Addasrwydd i ymarfer | **7** | 7 |
| Cyfathrebu | **5** | 5 |
| **Cyfanswm** | **28** | 28 |

**Taliadau cydnabyddiaeth i staff rheoli allweddol**

Mae'r staff rheoli allweddol yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, y Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Datblygu, a'r Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer.

Cyfanswm enillion y staff rheoli allweddol oedd £391,391 (2023: £379,488).

Cyfanswm y staff a oedd ag enillion trethadwy mewn bandiau cyflog uwch oedd:

| | **2024**<br>**£** | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| £60,000-£70,000 | **1** | 0 |
| £70,000-£80,000 | **0** | 0 |
| £80,000-£90,000 | **0** | 0 |
| £90,000-£100,000 | **1** | 2 |
| £100,000-£110,000 | **1** | 0 |
| £110,000-£120,000 | **0** | 1 |
| £120,000-£130,000 | **1** | 0 |

**Costau pensiwn**

Talwyd cyfanswm o £148,273 (2023: £121,288) fel cyfraniadau'r cyflogwr yn ystod y flwyddyn ar gyfer pensiynau staff unigol.

### 8. Asedau Sefydlog Anniriaethol a Diriaethol

**Asedau anniriaethol**

| | Asedau anniriaethol<br>£ |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | **20,000** |
| Ychwanegiadau | – |
| Gwarediadau | – |
| Ar 31 Mawrth 2024 | **20,000** |
| **Dibrisiant** | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | **17,291** |
| Tâl am y flwyddyn | **2,709** |
| Gwarediadau | – |
| Ar 31 Mawrth 2024 | **20,000** |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | **2,709** |
| Ar 31 Mawrth 2024 | – |

Roedd yr holl asedau anniriaethol yn gysylltiedig â Meddalwedd Gyfrifiadurol.

**Asedau Sefydlog**

| | Dodrefn swyddfa £ | Caledwedd cyfrifiadurol £ | Adeilad rhydd-ddaliadol £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 104,968 | 17,649 | 2,244,172 | **2,366,789** |
| Ychwanegiadau | 10,002 | 6,999 | – | **17,001** |
| Gwarediadau | – | – | – | – |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 114,970 | 24,648 | 2,244,172 | **2,383,790** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 70,541 | 9,231 | 699,146 | **778,918** |
| Tâl am y flwyddyn | 14,702 | 4,713 | 38,186 | **57,601** |
| Gwarediadau | – | – | – | – |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 85,243 | 13,944 | 737,332 | **836,519** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 34,427 | 8,418 | 1,545,026 | **1,587,871** |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 29,727 | 10,704 | 1,506,840 | **1,547,271** |

### 9. Buddsoddiadau

| | **2024**<br>**£** | 2023<br>£ |
|---|---:|---:|
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **1,167,992** | 1,249,568 |
| Buddsoddiad ychwanegol | **–** | – |
| Incwm wedi'i ail-fuddsoddi | **19,677** | 17,591 |
| Ffioedd a gymerwyd | **(12,548)** | (15,708) |
| (Colled)/Ennill | **94,561** | (83,459) |
| **Cyfanswm y portffolio** | **1,269,682** | 1,167,992 |

Mae buddsoddiadau'n cael eu rheoli gan Brewin Dolphin ac maent yn cael eu cadw mewn portffolio amrywiol, risg ganolig sy'n cynnwys cymysgedd o ecwiti (£626,232), bondiau (£404,434) ac asedau eraill, gan gynnwys arian parod (£239,016).

### 10. Dyledwyr

| | **2024**<br>**£** | 2023<br>£ |
|---|---:|---:|
| Dyledwyr masnach | **288,851** | 271,019 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **117,855** | 122,928 |
| Dyledwyr eraill | **904** | – |
| **Cyfanswm dyledwyr** | **407,610** | 393,947 |

### 11. Credydwyr

| | **2024**<br>**£** | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | **47,308** | 54,137 |
| Incwm gohiriedig | **900,122** | 818,067 |
| Croniadau | **77,445** | 104,170 |
| Credydwyr eraill | **6,794** | 4,729 |
| Treth arall a nawdd cymdeithasol | **37,361** | 38,556 |
| **Cyfanswm credydwyr** | **1,069,030** | 1,019,659 |

### 12. Incwm gohiriedig

| | **2024**<br>**£** | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | **818,067** | 898,605 |
| Swm gohiriedig yn ystod y flwyddyn | **900,122** | 818,067 |
| Swm a ryddhawyd i'r datganiadau ariannol | **(818,067)** | (898,605) |
| **Cyfanswm incwm gohiriedig** | **900,122** | 818,067 |

Caiff incwm o ffioedd cofrestru blynyddol ei ohirio a'i ryddhau i'r datganiad o weithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod perthnasol y ffi gofrestru. Mae'r holl incwm gohiriedig a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei ryddhau i'r datganiad o weithgareddau ariannol yn y flwyddyn ganlynol.

**13. Darpariaethau**

Roedd y darpariaethau canlynol ar waith yn ystod y flwyddyn:

| | 2024<br>£ |
|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2023 | **65,500** |
| Ychwanegiadau | **–** |
| Ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | **–** |
| Gwrthdroadau | **(65,500)** |
| Ar 31 Mawrth 2024 | **–** |

Mae'r ddarpariaeth a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol wedi cael ei gwrthdroi. Mae dyfarniad wedi'i gyhoeddi yn yr achos hwn ac mae aelodau o'r panel Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu hystyried yn weithwyr, ac yn dilyn canllawiau IAS 37, mae'r ddarpariaeth wedi cael ei gwrthdroi.

Mae rheolwyr wedi ystyried y ffaith nad oes unrhyw hawliadau wedi'u cyflwyno gan aelodau'r panel addasrwydd i ymarfer hyd yn hyn, er bod cynsail clir dros wneud hynny. Hefyd, mae'r Weithrediaeth wedi nodi nad oes unrhyw rwymedigaeth adeiladol i dalu unrhyw hawliadau. O ganlyniad, mae'r tebygolrwydd o wneud taliad anwirfoddol yn 'llai na thebygol', sy'n golygu bod rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn ddosbarthiad mwy priodol o'r rhwymedigaeth bosibl hon yn unol â gofynion IAS 37, sy'n datgan y dylid cydnabod darpariaeth o fewn y cyfrifon pan fodlonir y meini prawf canlynol:

1. Mae yna rwymedigaeth bresennol o ddigwyddiad blaenorol
2. Gellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy; a
3. Bydd y digwyddiad yn arwain at all-lif tebygol o fanteision economaidd.

**14. Cronfeydd wrth gefn**

| | Ar 1 Ebrill 2023 £ | **Incwm £** | **Gwariant £** | **Trosglwyddiad £** | **Ar 31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 2,636,671 | 3,018,256 | (2,994,590) | (274,120) | **2,386,217** |
| Cronfeydd wrth gefn dynodedig | | | | | |
| - Buddsoddiad TG | 152,093 | – | – | – | **152,093** |
| - Prosiect Gwerthoedd | 30,000 | – | – | (20,000) | **10,000** |
| - Canfyddiadau Cofrestryddion | 40,000 | – | – | (5,880) | **34,120** |
| - Cyfreithiol cyffredinol | – | – | – | 150,000 | **150,000** |
| - Costau seilwaith NCOR | – | – | – | 150,000 | **150,000** |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn** | 2,858,764 | 3,018,256 | (2,994,590) | – | **2,882,430** |

Mae'r cronfeydd dynodedig yn ymwneud â'r buddsoddiad cynyddol mewn Technoleg Gwybodaeth (TG) i symleiddio ein gweithgareddau (£152,093), y Prosiect Gwerthoedd (gwneud penderfyniadau ar y cyd) (£10,000), yr Arolwg o Ganfyddiadau Cofrestryddion i gasglu safbwyntiau a gwybodaeth gan gofrestryddion (£34,120), cronfa gyfreithiol gyffredinol i liniaru costau nad oedd modd eu rhagweld (£150,000), a chefnogi gwaith parhaus y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig ("NCOR"); mae pum mlynedd o gostau seilwaith wedi'u neilltuo (£150,000).

**Ffigurau cymharol y flwyddyn flaenorol**

| | Ar 1 Ebrill 2022 £ | Incwm £ | Gwariant £ | Trosglwyddiad £ | Ar 31 Mawrth 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 2,722,825 | 2,919,693 | (2,965,847) | (40,000) | **2,636,671** |
| Cronfa wrth gefn ddynodedig | 182,093 | – | – | 40,000 | **222,093** |
| **Cyfanswm cronfeydd** | 2,904,918 | 2,919,693 | (2,965,847) | – | **2,858,764** |

### 15. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae Matthew Redford, Prif Weithredwr a Chofrestrydd, yn Ymddiriedolwr y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig.

Mae Dr Daniel Bailey, Aelod o'r Cyngor, yn Gymrawd Ymchwil y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig.

Nid oes unrhyw achosion uchel lys sydd heb eu cynnal.

### 16. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae darpariaeth y flwyddyn flaenorol ar gyfer costau cyflogaeth mewn perthynas ag achos y tribiwnlys cyflogaeth y cyfeirir ato yn nodyn 13 yn cael ei thrin fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn awr nes iddi fodloni gofynion darpariaeth.

Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
Llundain SE1 3LU

020 7357 6655
info@osteopathy.org.uk
**osteopathy.org.uk**

Mae'r GOsC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1172749)